

Dyfodol plentyndod: yr hyn a ddywedasochn wrthym



CRYNODEB O'R YMCHWIL

Gwyddom mai plant yw'r dyfodol, ac mae gennych i gyd bethau mor bwysig i'w dweud. Bydd y penderfyniadau y mae oedolion yn eu gwneud nawr yn effeithio ar blentyndod cenedlaethau'r dyfodol. Credwn mai chi yw'r bobl orau i helpu oedolion i wneud penderfyniadau am y ffordd y dylai dyfodol plentyndod edrych. Gofynnwyd i blant ar draws y DU ddweud wrthym sut byddent eisiau i blentyndod fod yn y dyfodol. Cawsom ein synnu pa mor greadigol oedd eich atebion. Dyma'r hyn a ddywedasochn wrthym:

TECHNOLEG

Rydych mor gyffrous am y cyfleoedd y bydd technoleg yn eu darparu i blant yn y dyfodol! Pwy â wŷr a fydd dronau, VR neu ysgol ar-lein? Fe wnaethoch sôn am y ffordd y gall eich helpu i ddysgu a chwarae, ond rydych hefyd eisiau sicrhau bod plant yn defnyddio technoleg yn ddiogel ac yn iach. Nid ydych eisiau colli allan ar gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored a chysylltu ag eraill wyneb yn wyneb, ac yn poeni y bydd technoleg yn cael ei defnyddio i gymryd lle y cyfleoedd hyn.

CYSYLLTU GYDA NATUR

Rydych i gyd mor wybodus am y newid yn yr hinsawdd, a phwysigrwydd diogelu ein hamgylchedd. Gwnaethoch gymaint o sylwadau sydd yn procio'r meddwl am ein dyletswydd i'n planed ac rydych eisiau sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu cael dŵr glân, llai o lygredd, mwy o goed ac awyr iach. Mae rhai ohonoch yn poeni bod pobl yn dinistrio'r blaned, a bod ein hamser i weld harddwch y byd yn gyfyngedig. Mae gwyddonwyr yn gwybod beth sydd angen i ni ei wneud i ofalu ar ôl y blaned, felly gobeithio gallwn wneud y newidiadau hyn nawr i ddiogelu'r dyfodol!

CARTREFI, TEULU A PHRYDAU POETH

Rydych eisiau sicrhau yn y dyfodol y bydd gan bob teulu ddigon o arian i ddarparu popeth sydd ei angen ar eu plant. Rydych yn credu ei fod yn bwysig bod gan bob plentyn le diogel i gysgu yn y nos a phrydau poeth ar y bwrdd. Dangosoch werthfawrogiad mawr am y teuluoedd a'r adnoddau sydd gennych ac rydych eisiau i bob plentyn yn y dyfodol gael hyn hefyd.

BOD YN GYFARTAL A CHAEL EICH CYNNWYS

Dywedodd plant ar draws y DU pa mor bwysig yw tyfu i fyny mewn amgylchedd sydd yn derbyn. Rydych eisiau sicrhau bod pawb yn cael eu derbyn waeth beth fo'u hil, rhywioldeb neu gefndir ac yn annog pawb i fod yn nhw eu hunain. Rydych yn gobeithio y bydd plant y dyfodol yn cael eu gwerthfawrogi am eu gwahaniaethau, gan fod pawb yn arbennig ac yn unigryw.

CHWARAE

Nid oedd yn syndod clywed eich bod i gyd wrth eich bodd yn cael hwyl ac nad ydych eisiau rhoi'r gorau i hynny yn y dyfodol! Roeddech eisiau i blant yn y dyfodol gael cyfleoedd i chwarae'n egniol, fel cestyll gwynt, siglenni, parciau, ffeiriau a nofio. Rydych hefyd eisiau iddynt gael amser i dawelu ac ymlacio. Rydych yn poeni am y pwysau sydd yn dod gyda dysgu a'r ysgol ac eisiau sicrhau bod plant hefyd yn cael amser i orffwys.



**Achub y
Plant**

OEDOLION


Fe wnaethom siarad ag 19 o oedolion sydd yn gweithio gyda, neu dros blant. Cawsant eu hysbrydoli gan eich cenhedlaeth chi – rydych yn weithredwyr angerddol sydd bob amser yn brwydro dros yr hyn yr ydych yn credu ynddo. Maent yn gweld ymagwedd o dderbyn tuag at iechyd meddwl yn eich cenhedlaeth chi, ac yn gobeithio bydd y llywodraeth yn helpu i dalu am y cymorth y bydd plant ei angen yn y dyfodol. Mae'r oedolion hyn yn cytuno gyda chi y gall technoleg fod yn ddefnyddiol iawn, ond bod angen ei defnyddio'n ofalus ac mae'n bwysig cael amser yn yr awyr agored hefyd! Fel chi, soniodd yr oedolion am y ffordd nad oes gan rai teuluoedd ddigon o arian, sy'n ei wneud yn fwy anodd i gadw'n iach, dysgu a chwarae. Rydych chi a'r oedolion y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod nad yw hyn yn deg a bod angen i hyn newid.

BETH SYDD YN DIGWYDD NESAF?

Bydd Achub y Plant yn rhannu eich safbwyntiau gyda'r bobl sydd yn gwneud penderfyniadau yn y DU, fel gwleidyddion. Gobeithio bydd hyn o gymorth iddynt sicrhau bod plant yn y dyfodol yn cael y dyfodol gorau posibl. Isod ceir cwestiynau yn seiliedig ar eich syniadau. Gallwch drafod y rhain gyda'ch dosbarth neu grŵp, i'ch helpu i barhau i feddwl am y dyfodol a sut gallwch ei ffurfio.



Cwestiynau adlewyrchu



Gellir defnyddio'r cwestiynau hyn yn yr ystafell ddosbarth, gartref, neu i blant feddwl amdanynt yn eu hamser eu hunain:

1. Rydych wedi rhannu ei fod yn bwysig cael dyfodol lle gall plant dyfu i fyny heb unrhyw wahaniaethu. Beth yn eich barn chi y gallwn ei wneud nawr i sicrhau bod y dyfodol yn fwy cyfartal?
2. Allwch chi feddwl am unrhyw newidiadau, mawr neu fach, fydd yn helpu i sicrhau bod gan bawb gartrefi diogel a bwyd cynnes? Beth gall plant ei wneud?
3. Bydd technoleg yn chwarae rôl yn y ffordd yr ydych yn chwarae, dysgu a chysylltu ag eraill. Sut gallwch sicrhau ein bod yn dal i wrando ar eich safbwyntiau pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau am rôl technoleg yn eich byd?
4. Beth gall oedolion ei wneud i sicrhau ein bod yn parhau i weithredu ar eich safbwyntiau am yr amgylchedd? Beth ydych chi'n meddwl ddylai ein blaenoriaethau fod?
5. Dywedasoich wrthym pa mor bwysig yw chwarae ac ymlacio i chi. Pam mae'r pethau hyn mor bwysig? Sut gall oedolion eich helpu i gael amser i chwarae ac ymlacio?

Cyhoeddwyd gyntaf 2021

© Cronfa Achub y Plant 2021

Mae Cronfa Achub y Plant yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (213890) a'r Alban (SC039570). Rhif Cwmni Cofrestredig 178159

